



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Mid and West Wales VAWDASV
Strategic Group
Safer Lives, Healthier Families
Tackling Violence Against Women,
Domestic Abuse & Sexual Violence
in our Communities



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Protocol Gweithredu Ymgyrch Cwmpasu Dyfed-Powys

Ionawr 2020

Cynnwys

1. Ymgyrch Cwmpasu - Gweledigaeth a Throsolwg	3
2. Gweithdrefn Weithredol	3
Presenoldeb yr heddlu mewn Achos o Gam-drin Domestig	3
Rôl Swyddogion Diogelu'r Adran Addysg	4
Rôl yr ysgol	4
Amserlenni	4
Cofnodi Gwybodaeth	4
3. Cyfrifoldeb yr Ysgol	5
4. Cymorth wedi'i deilwra	5
5. Ystyriaethau Trawsffiniol	6
6. Rhannu Gwybodaeth	7
7. Llywodraethu ac Atebolrwydd	7
Atodiad 1 – Diffiniad o Gam-drin Domestig	8
Atodiad 2 – Cymorth a roddir i blant	9
Atodiad 3 – Llythyr Ymgyrch Cwmpasu gan yr Ysgol i Rieni	10
Atodiad 4 – Poster Ymgyrch Cwmpasu	11
Asesiad 5 - Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	12

1. Ymgyrch Cwmpasu - Gweledigaeth a Throsolwg

Lansiwyd Ymgyrch Cwmpasu yn Plymouth ym mis Chwefror 2011 i fynd i'r afael â diffygion wrth rannu gwybodaeth yn gynnar ag ysgolion; gyda'r weledigaeth o ddiogelu plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig drwy sicrhau bod y gwasanaethau priodol yn cael gwybod am ddigwyddiad cyn gynted â phosibl. Ers hynny mae Ymgyrch Cwmpasu wedi cael ei chyflwyno ar draws nifer o ardaloedd yn y DU gan weithredu'n llwyddiannus ac arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer o blant a phobl ifanc.

Pwrpas Ymgyrch Cwmpasu yw diogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi bod yn dyst a/neu wedi bod yn bresennol ar adeg achos o gam-drin domestig. Yn dilyn digwyddiad o'r fath, bydd plant yn aml yn cyrraedd yr ysgol mewn trallod ac yn amharod. Nod Ymgyrch Cwmpasu yw sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig wedi'i nodi o fewn yr ysgol a'i fod wedi'i hyfforddi'n briodol. Dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r digwyddiadau cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth amserol ac wedi'i deilwra i blant a phobl ifanc ar ddechrau, ac yn ystod y diwrnod ysgol.

Nid yw Ymgyrch Cwmpasu yn disodli protocolau presennol. Dylid dilyn y broses ar y cyd â gweithdrefnau diogelu cyfredol a chanllawiau i ymarferwyr bob amser. Mae Ymgyrch Cwmpasu wedi'i chynllunio i atgyfnerthu arferion diogelu a sicrhau bod llesiant plant o'r pwys mwyaf.

Mae Ymgyrch Cwmpasu Dyfed-Powys yn bartneriaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys, Adran Addysg pob un o'r pedwar awdurdod lleol ac unigolion diogelu dynodedig o fewn yr ysgolion.

2. Gweithdrefn Weithredol

Presenoldeb yr heddlu mewn Achos o Gam-drin Domestig

Mae'r heddlu'n mynd i achos o gam-drin domestig, yn delio â'r digwyddiad ac yn asesu'r risg. Rhan o'r asesiad risg yw casglu gwybodaeth berthnasol gan gynnwys enwau, dyddiad geni, cyfeiriad cartref ac ysgolion a fynychir gan unrhyw blant sy'n byw/yn bresennol yn y tŷ. Mae hefyd yn hanfodol pennu'r canlynol:

1. Dyddiad ac Amser y digwyddiad
2. Crynodeb o amgylchiadau'r digwyddiad
3. A oedd unrhyw blant yn rhan o'r digwyddiad neu'n dyst iddo
4. A anafwyd y plentyn neu a oedd yn amlwg yn ofidus?
5. A oedd unrhyw blentyn yn bresennol yn y cyfeiriad ar adeg y digwyddiad neu fel arfer yn preswyllo yn y cyfeiriad hwn

Bydd y swyddog sy'n bresennol yn cwblhau'r DASH llawn, yn asesu lefel y risg ac yn ei gyflwyno. Mae hyn yn cynhyrchu hysbysiad digwyddiad domestig awtomataidd a anfonir i Adran Addysg yr Awdurdod Lleol drwy gyfeiriad e-bost diogel. Mae pob Awdurdod Lleol wedi neilltuo staff penodedig i gyrchu'r mewnlwch hwn.

Rôl Swyddogion Diogelu'r Adran Addysg

Bob bore bydd y Swyddogion Diogelu yn adolygu pob Hysbysiad Digwyddiad Domestig (DIN) yn y mewnlwch. Os na chaiff yr ysgol ei datgan yn yr Hysbysiad Digwyddiad Domestig, bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i'w systemau ac yn canfod pa ysgol y mae'r plentyn/plant a enwir yn ei mynychu ac yn ffonio pob ysgol yn unigol i hysbysu'r pennaeth neu'r Person Diogelu Dynodedig cyn 9am (neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl).

Rôl yr ysgolion

Bydd gan bob ysgol Person Diogelu Dynodedig a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt sengl ar gyfer Ymgyrch Cwmpasu. Bydd y Person Diogelu Dynodedig yn sicrhau bod y staff perthnasol yn yr ysgol yn ymwybodol bod digwyddiad wedi bod i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael y cymorth perthnasol, boed yn ddistaw neu'n agored. Bydd yr ysgol yn cofnodi'r hysbysiad Ymgyrch Cwmpasu ac unrhyw nodiadau ychwanegol mewn dogfen a ddiogelir gan gyfrinair ar system yr ysgol.

Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei addysgu yn y cartref, bydd yr hysbysiad yn cael ei rannu â'r Ymgynghorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Amserlenni

Bydd Hysbysiad o Ddigwyddiad Domestig yn cael ei rannu pan fydd y digwyddiad yn digwydd. Bydd y swyddog heddlu sy'n delio â'r digwyddiad yn cyflwyno'r wybodaeth a chaiff yr hysbysiad ei boblogi'n awtomatig a'i anfon trwy gyfrwng e-bost diogel. Bydd Swyddogion Diogelu'r Awdurdod Lleol yn adolygu eu mewnlwch bob bore a byddant yn ceisio cysylltu â'r ysgolion cywir cyn 9am (pryd bynnag y bo'n bosibl).

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau y bydd y broses hon yn parhau dros gyfnod gwyliau'r ysgol ac y bydd y wybodaeth yn cael ei hanfon i'r adran addysg i'w hanfon ymlaen i'r ysgolion, fel eu bod yn gwbl ymwybodol o bob digwyddiad pan fydd y tymor yn cychwyn.

Cofnodi Gwybodaeth

Bydd yr Adran Addysg o fewn yr awdurdod lleol yn adolygu pob hysbysiad o'u mewnlwch diogel. Ar ôl i'r wybodaeth berthnasol gael ei dosbarthu i'r ysgolion, caiff yr hysbysiad e-bost ei ddileu.

3. Cyfrifoldeb yr Ysgol

Cydnabyddir bod angen delio â'r modd y caiff gwybodaeth gyfrinachol a sensitif o'r fath ei thrin mewn modd sy'n gymesur ac yn briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r rôl hon yn gweithio orau o'i rhoi i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'i ddirprwy, gan eu bod ill dau wedi cael hyfforddiant mewn diogelu plant a byddant yn gyfarwydd â rheoli gwybodaeth sensitif.

Disgwylir y bydd gwybodaeth yn ymwneud ag Ymgyrch Cwmpasu yn cael ei storio yn unol â'r gofynion storio ar gyfer ffeiliau diogelu/amddiffyn plant. Lle bydd gan blentyn gofnod o'r fath eisoes, dylid cynnwys gwybodaeth Cwmpasu o fewn hyn.

Y Person Diogelu Dynodedig neu ei ddirprwy fydd y person sydd ar gael bob dydd i dderbyn manylion y digwyddiad ac i asesu'r math o gymorth sydd ei angen ar gyfer y plentyn.

Rhaid i'r Ysgol hysbysu rhieni bod yr ysgol yn rhan o Ymgyrch Cwmpasu, gan ddefnyddio'r templed sylfaenol a roddir i bob ysgol os oes angen (y gellir ei newid i ofynion unigol yr ysgol). Gweler Atodiad 3.

Dylai'r Ysgol ystyried cynnwys gwybodaeth am Ymgyrch Cwmpasu ym mhrosbectws yr ysgol, gan felly sicrhau bod pob rhiant newydd yn cael gwybod am yr Ymgyrch. Dylai'r Ysgol sicrhau bod eu polisi diogelu yn cael ei ddiweddarau fel bod cyfeiriad yn cael ei wneud at y Rhaglen Gwmpasu a dylai gwybodaeth am Ymgyrch Cwmpasu ffurfio rhan o wefan yr ysgol. Poster Ymgyrch Cwmpasu – gweler Atodiad 4.

Rhaid i'r Ysgol roi gwybod i'r Corff Llywodraethu bod yr ysgol yn rhan o Ymgyrch Cwmpasu, a dylai'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol am ddiogelu fod â gwybodaeth weithredol am y prosiect.

Cyfrifoldeb pob ysgol yw sicrhau bod manylion y Person Diogelu Dynodedig a'r dirprwy yn gyfredol. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod dirprwy wedi'i hyfforddi'n ddigonol ar gael i dderbyn y wybodaeth yn eu habsenoldeb.

4. Cymorth wedi'i deilwra

5

Dylai ysgolion ystyried defnyddio opsiynau cymorth agored a distaw. Dyma enghreifftiau o'r opsiynau hynny:-

- Deall a chaniatáu hyblygrwydd mewn disgwyliadau o safbwynt ymddygiad, gwaith ysgol a rheolau'r ysgol
- Ystyried efallai na fydd y plentyn yn gallu cymryd rhan lawn yn niwrnod yr ysgol, yn emosiynol ac yn gorfforol
- Cydnabod yr hyn y mae wedi bod trwyddo, gofalu am les y plentyn
- Cyfleoedd am 'amser tawel' neu amser un-i-un gydag athro/athrawes neu oedolyn priodol arall i roi cyfleoedd i siarad, er enghraifft, 'helpu gyda thasg'
- Helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'r ffordd y mae'n teimlo ac yn ymddwyn a'i helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi
- Adolygu cynlluniau gwersi er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i'r plentyn ar y diwrnod
- Systemau ar gyfer gwisg sbâr, cit addysg gorfforol, cinio ac ati.
- Mentora
- Gall ysgolion wneud cais am amgylchiadau eithriadol i Fyrddau Arholi

Dylai'r ysgolion nodi bod y digwyddiad a adroddwyd i'r heddlu ac a sbardunodd yr hysbysiad Ymgyrch Cwmpasu eisoes wedi'i gyfeirio i'r adran gofal cymdeithasol plant i'w asesu ym mhob achos, ac ni ddylai'r ysgol wneud atgyfeiriad dyblyg mewn perthynas â'r hysbysiad.

DS. Os bydd plentyn/person ifanc neu oedolyn yn datgelu rhagor o gam-drin domestig i chi, dilynwch y gweithdrefnau diogelu arferol.

5. Ystyriaethau Trawsffiniol

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod y bydd yna blant yn ardal Dyfed-Powys sydd yn mynychu lleoliadau addysg y tu allan i ffiniau'r heddlu. Ar hyn o bryd, nid oes modd hysbysu eu hysgolion o dan y broses hon; fodd bynnag, pan fydd yna bryderon yn ymwneud â diogelu, bydd yr heddlu yn parhau i hysbysu'r asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol o ddigwyddiadau cam-drin domestig.

6. Rhannu Gwybodaeth

Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) wedi'i gwblhau at ddibenion Ymgyrch Cwmpasu, gweler Atodiad 5. Ceir hefyd ystod o brosesau a phrotocolau rhannu gwybodaeth ar waith sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu ar gyfer Ymgyrch Cwmpasu:

- Deddf Plant 2004 – Adrannau 10 ac 11
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant

- Bwrdd Lleol Diogelu Plant – Polisiâu a Gweithdrefnau
- Deddf Addysg 2002
- Model Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Gwneud Penderfyniadau
- Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu
- Deddf Gofal 2014

Bydd gwybodaeth Ymgyrch Cwmpasu yn cael ei rhannu drwy ddulliau sy'n gymesur, yn gyfreithiol, yn atebol ac yn angenrheidiol, gan felly gynnal hawliau dynol a sicrhau y cedwir at ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r broses hon o rannu gwybodaeth yn ddull rhagweithiol o sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra'n cael ei roi i blant a'u teuluoedd cyn gynted â phosibl.

7. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Ar lefel strategol, mae Ymgyrch Cwmpasu yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (CYSUR), y Bwrdd Diogelu Oedolion, y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd hyn ar ffurf adroddiadau diweddarau rheolaidd, y gall pob Bwrdd unigol gytuno ar eu hamlder.

Atodiad 1

Diffiniad o Gam-drin Domestig

“unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n arddangos ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd yn bartneriaid agos neu a fu felly, neu sy'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall hyn gwmpasu'r mathau canlynol o gam-drin ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Seicolegol
- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol
- Emosiynol

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd', priodasau dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod ac mae'n amlwg nad yw dioddefwyr yn gyfyngedig i unrhyw un rhyw neu grŵp ethnig.

Atodiad 2

Cymorth a roddir i blant

Mae'r ddau brif fath o gymorth a roddir i blant gan bersonau diogelu dynodedig wedi'u labelu fel 'cymorth distaw' a 'chymorth agored'.

Cymorth Agored

- Diwallu anghenion corfforol, h.y. brecwast, cinio, darparu gwisg
- Cymorth 1:1 megis mentor dysgu ac ati
- Gweithio mewn mannau eraill neu wneud gweithgaredd gwahanol/ddim yn gweithio o gwbl.
- Cyfaill ysgol.
- Gwneud newidiadau i drefn yr ysgol.
- Gadael i'r plentyn wybod eich bod yn ymwybodol ond neb arall.
- Asesu iechyd/llesiant emosiynol.

Cymorth Distaw

- Gwneud iddo/iddi wybod â phwy y gall siarad os oes angen
- Peidio â bod yn rhy llym o ran rheolau'r ysgol.
- Disgwyliadau gwahanol mewn perthynas â'i ymddygiad a'i allbwn gwaith.
- Hysbysu'r athro dosbarth gan roi cyn lleied o wybodaeth â phosibl.
- Gwirio'r trefniadau casglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
- Cael staff yn bresennol fel math o gymorth drwy gydol y dydd.
- Lle bo'n briodol, dylid cynnal trafodaeth gyda staff eraill yr ysgol i dynnu sylw at unrhyw faterion perthnasol neu gysylltiedig eraill, h.y. hunan-niweidio, diffyg presenoldeb ac ati.

Atodiad 3

Llythyr Ymgyrch Cwmpasu gan yr Ysgol i Rieni



Atodiad 4

Poster Ymgyrch Cwmpasu



PCC Encompass
poster.docx

Atodiad 5

Atodir copi o'r Asesiad DPIA wedi'i lofnodi yma.

